PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# SWYDDOG YMCHWIL AC YMGYSYLLTU

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl Swydd:** Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu

**Yn Adrodd i'r:** Rheolwr Prosiectau a Phartneriaethau

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio'n ystwyth gartref neu yn y swyddfa

**Oriau Gwaith:** 14 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosibl, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr i gyflawni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau'n sylweddol eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **12pm ar 3 Gorffennaf 2024.**

Bydd ein panel recriwtio yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Ni fyddant yn derbyn eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

Bydd angen bod ymgeiswyr ar gael ar gyfer cyfweliad ar-lein naill ai ar **10 neu 11 Gorffennaf 2024.**

.

# Gwybodaeth Bellach

**Contract:** Cyfnod penodol – 11 Tachwedd 2024

**Oriau Gwaith:** 14 awr yr wythnos

**Graddfa Gyflog:** £25,750 pro rata

**Gwyliau Blynyddol:** 25 diwrnod y flwyddyn pro rata

**Dull Talu:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan.

# Disgrifiad Swydd

**Teitl y Swydd:** Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu

**Yn Adrodd i'r:** Rheolwr Prosiectau a Phartneriaethau

**Lleoliad:** Caerdydd – gweithio'n ystwyth gartref neu yn y swyddfa

**Oriau Gwaith:** 14 awr yr wythnos

**Prif ddiben y rôl:**

Bydd y Swyddog Datblygu yn gyfrifol am gefnogi a chyflawni cyfnod olaf y prosiect hwn a arweinir gan Bobl Ifanc lle mae pobl ifanc yn ymchwilwyr cymheiriaid. Bydd deilydd y swydd yn gweithio gyda chydweithwyr i helpu pobl ifanc i symud ymlaen â'u prosiect ymchwil cymheiriaid ynghylch y newid yn yr hinsawdd. Yn ystod cyfnod olaf y prosiect hwn yn benodol, byddwch chi'n sicrhau bod y gwaith ymchwil a dadansoddi data a gyflawnir gan y bobl ifanc hyn yn arwain at adroddiad terfynol wedi'i gydgynhyrchu a gaiff ei ledaenu'n helaeth, gan gynnwys cynllunio 'Uwch-gynhadledd' lle bydd modd i'r ymchwilwyr ifanc gyflwyno'u canfyddiadau.

CCUHP, ac Erthygl 12 yn arbennig, yw'r prif sbardun ar gyfer y rôl hon a bydd angen i ddeilydd y swydd arddangos gwybodaeth ac arbenigedd cadarn o ran galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol a chael gwrandawiad wrth lywio datblygiad polisi ac ymarfer, ochr yn ochr â grymuso plant a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol ledled Cymru.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Cynnal perthnasoedd cadarn â phartneriaid er mwyn sicrhau bod amcanion cyfnod olaf y prosiect yn cael eu cyflawni'n effeithiol
- Parhau i ddatblygu'r rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y maes gwaith penodol
- Cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu model cadarn o ymgysylltiad ieuenctid cyfranogol sy'n canolbwyntio ar gyrraedd pobl ifanc o gefndiroedd gwahanol ar draws Cymru ac ymgysylltu â nhw
- Arwain y bobl ifanc a'u helpu i gwblhau eu prosiect ymchwil cymheiriaid trwy ddatblygu adroddiad wedi'i gydgynhyrchu yn seiliedig ar eu canfyddiadau a'u dadansoddiad
- Lledaenu'r wybodaeth hon mewn modd creadigol gan gefnogi syniadau'r bobl ifanc ynghylch sut mae gwneud hynny
- Datblygu dulliau o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfranogi a chyfrannu at ddatblygu'r gwaith ac ymgynghori â phobl ifanc eraill
- Sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn cael eu cydnabod fel gwirfoddolwyr ac yn cael cydnabyddiaeth am eu hamser gwirfoddol
- Parhau i sicrhau cyfleoedd i feithrin gallu'r bobl ifanc a'u galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a dod yn arweinwyr cymheiriaid effeithiol

- Hyrwyddo cyfleoedd i'r plant a'r bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau ymhellach trwy ddulliau achredu
- Hyrwyddo arferion diogelu plant a phobl ifanc Plant yng Nghymru a gweithio'n unol â hynny i sicrhau profiad diogel a chefnogol i'r rhai sy'n cymryd rhan
- Cynllunio a chydlynu cyfarfodydd gyda phartneriaid a phobl ifanc yn ôl y gofyn
- Bod yn gyfrifol am fonitro a rhoi adroddiadau i bartneriaid a chyllidwyr
- Cyflawni'r amcanion a'r rhaglenni gwaith cytunedig yn unol â safonau Plant yng Nghymru
- Ymgymryd â thasgau gweinyddu priodol i gefnogi'r prosiect
- Cynrychioli'r sefydliad mewn ystod o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl y gofyn
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol ar gais rheolwr perthnasol Plant yng Nghymru
- Cyflawni'r holl dasgau uchod yn unol â nodau, gwerthoedd a gweledigaeth strategol Plant yng Nghymru gyda golwg benodol ar CCUHP a'r polisïau amddiffyn plant.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, a gallai Plant yng Nghymru ofyn i ddeilydd y swydd ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill o bryd i'w gilydd er mwyn cyfrannu at gyflawni dyletswyddau'r sefydliad.

# Manyleb Person

**Profiad Gwybodaeth a Sgiliau – Hanfodol**

1. Cymhwyster ar lefel gradd (neu brofiad a hyfforddiant cyfatebol perthnasol) ac o leiaf un flwyddyn o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad penodol, megis y sector gwirfoddol, llywodraeth leol, gwaith ymchwil cymdeithasol, gwaith ieuenctid, gwaith cymdeithasol neu addysgu ffurfiol.
2. Profiad o gyflwyno ymgyngoriadau a phrosiectau ymchwil gwreiddiol, unigol a chydweithredol ar lefel uchel, gan ddangos dealltwriaeth o ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol – yn benodol, dulliau addas ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc, moeseg a chyfle cyfartal.
3. Profiad o gasglu a dadansoddi data, llunio casgliadau perthnasol, paratoi ac ysgrifennu papurau ac adroddiadau o safon uchel ar gyfer gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc.
4. Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r gallu i weithio o bersbectif hawliau plant.
5. Profiad o waith amlasiantaeth, gyda'r sector statudol a'r sector gwirfoddol.
6. Gallu i weithio'n greadigol ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm, yn unol â chanllawiau cytunedig, gyda sgiliau trefnu da, a'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu'r gwaith er mwyn cadw at derfynau amser.
7. Gallu diamheuol i gyfathrebu'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol, unigolion a'r cyfryngau, gan ddefnyddio ystod o sgiliau llafar, ysgrifenedig a sgiliau cyflwyno eraill.
8. Profiad o drefnu cyfarfodydd, deall deinameg grwpiau, cadw at derfynau amser a symud materion ymlaen i'w cwblhau.
9. Gallu dangos ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal ac arferion gwrth-hiliol a bod yn sensitif iddynt.
10. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiogelu pobl ifanc/oedolion/teuluoedd.
11. Medru ysgrifennu cynnwys clir, hygyrch ac apelgar, ac â'r gallu i ledaenu gwybodaeth trwy wahanol rwydweithiau a llwybrau.

**Dymunol**

1. Cymhwyster ôl-radd mewn maes perthnasol, megis y gwyddorau cymdeithasol, gwaith ieuenctid a datblygu cymunedol, addysg.
2. Medrusrwydd o ran datblygu a chynnal a chadw cronfeydd data.
3. Profiad o reoli platfformau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol.
4. Gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.
5. Trwydded yrru gyfredol/gallu i fodloni gofynion y swydd o ran teithio.
6. Profiad a dealltwriaeth o waith polisi, ymchwil ac ymarfer yng nghyswllt cyfranogiad plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig a'r gallu i ddangos ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion CCUHP ac awydd angerddol i hyrwyddo gweithrediad effeithiol y confensiwn, yn seiliedig ar wybodaeth am y materion cyfredol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

# Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o safon a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau llais i blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad o aelodau rydyn ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall aelodau fod yn rhai corfforaethol neu'n unigolion, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

.